| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y CYNGOR** |
| DYDDIAD: | **21 IONAWR 2010** |
| TEITL YR ADRODDIAD: | **PENODI EILYDDION I BWYLLGORAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | **DARPARU GWYBODAETH AC ARWEINIAD AR GYFER RHYBUDD O GYNNIG** |
| AWDUR: | **DILYS A PHILLIPS PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** |

**CYFWLYNIAD**

1. Mae'r rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Owain Williams yn gofyn i'r Cyngor addasu'r Cyfansoddiad er caniatáu i Grŵp Gwleidyddol benodi dirprwy ar gyfer mynychu Pwyllgor yn lle aelod na all fod yn bresennol oherwydd amgylchiadau arbennig. Hanfod trefn o'r fath yw fod aelodaeth sylfaenol yn parhau ond fod yr eilydd yn cymeryd lle yr aelod sefydlog am y cyfarfod penodol yn unig.

2. Yn sylfaenol nid oes gwrthwynebiad cyfreithiol mewn egwyddor i sustem eilyddion ar gyfer aelodau Pwyllgorau. Er hynny mae materion ymarferol, cyfansoddiadol a chyfreithiol sydd angen eu hystyried. Mae angen pwyso a mesur yr angen am y fath drefniadaeth ac yna sut yn union gellir gweithredu'r sustem.

**TREFN EILYDDIO**

3. Os yw'r Cyngor o blaid caniatáu eilyddion byddwn yn awgrymu fod yr egwyddorion canlynol yn berthnasol is sefydlu trefn o'r fath:

   Ymarferoldeb, Tryloywder, Priodoldeb a Phendantrwydd

4. Gellir ystyried dau fodel ar gyfer gweithredu sustem o'r fath:

   (a) Trefn ble penodir yr eilydd gan y Grŵp Gwleidyddol, os cyfyd yr angen, drwy roi rhybudd i'r Swyddog Priodol o fewn cyfnod penodedig e.e. dim hwyrach na dyddiad cyhoeddi'r Rhaglen (bydd hyn yn sicrhau fod y Rhaglen yn cael ei hanfon i'r aelodau perthnasol a bod eglurdeb i'r cyhoedd ynglŷn ag aelodaeth y Pwyllgor) .

   (b) Trefn ble penodir eilyddion ar yr un adeg ac y penodir y Pwyllgor ar ddechrau'r flwyddyn. Eto byddai angen hysbysu'r Swyddog Priodol o'r bwriad i eilyddio ymlaen llaw yn yr un modd.

5. Mae manteision trefn (a) yn yr hyblygrwydd sydd yn cael ei gynnig. Nid yw yn ddibynnol ar i aelodau penodol fod ar gael O fewn cyfyngiadau'r gyfraith gall unrhyw aelod sydd ar gael fod yn barod i fynychu'r Pwyllgor ar ran Grŵp Gwleidyddol. Mae'r anfanteision yn ynghlwm a anffurfioldeb y drefn. Gyda'r pwyslais cynyddol ar ddatblygu arbenigedd aelodau ar gyfer swyddogaethau ynghyd a'r gofyn mewn llawer i Bwyllgor am ddealltwriaeth ac hyfforddiant yn

eu maes llafur mae risgiau yn ynghlwm a caniatáu eilyddion mewn modd ad-hoc o'r math yma. Fe ddaw hyn efallai'n amlycach wrth ystyried pa Bwyllgorau sydd yn addas ar gyfer trefn o'r fath. Mae trefn (b) yn cynnig modd o eilyddio sydd yn fwy eglur a phendant. Drwy adnabod eilyddion wrth sefydlu'r Pwyllgor mae'r aelodaeth yn glir ac yn agored o'r dechrau. Os oes angen hyfforddiant neu ddealltwriaeth penodol ar gyfer gwaith y Pwyllgor yna gall yr eilyddion gael eu cynnwys yn y rhaglen berthnasol. Bydd yr aelodau sydd yn eilyddion yn fwy tebygol o fod yn gyfarwydd ac yn ymgyfarwyddo a gwaith y Pwyllgor fyddent yn eilyddio arno.

**CYFANSODDIADOL**

6. Petai'r Cyngor am fabwysiadu pa fodel bynnag mae oblygiadau cyfansoddiadol angen eu hystyried. Mae'r rhain yn berthnasol i bob Pwyllgor. Er enghraifft petai Cadeirydd Pwyllgor yn methu a bod yn bresennol ond fod eilydd yn cymeryd ei le/lle yn ôl y Cyfansoddiad ar hyn o bryd byddai'r Gadair yn cael ei chymeryd gan yr Is Gadeirydd a benodwyd gan y Pwyllgor. Yn yr un modd ni all trefn eilyddion ganiatáu aelodaeth o Bwyllgor os oes cyfyngiad cyfreithiol ynglŷn a'r aelod oherwydd swyddogaethau eraill neu ofynion cydbwysedd gwleidyddol.

7. Yn ychwanegol o ran ystod o Bwyllgorau'r Cyngor ynghyd a'r gofynion am ddealltwriaeth penodol o'r meysydd llafur dylid ystyried sut yn union y byddai modd sicrhau digon o eilyddion. Mae risg mewn trefn eilyddion mai yr hyn fydd yn ymarferol bosib yw sicrhau presenoldeb yn y Pwyllgor. Yna mae gallu aelod penodol i gyfrannu'n effeithiol yn ddibynnol ar bwy sydd yn eilydd ym mha Bwyllgor ar y pryd. Mae hyn yn cynyddu ble mae gan Bwyllgorau swyddogaethau a hawliau penderfynu arbenigol megis Pwyllgorau Trwyddedu a Phwyllgorau Apêl.

**EILYDDION MEWN PWYLLGORAU PENODOL**

8. **Bwrdd y Cyngor**

Mae swyddogaeth gynrychioladol ac atebolrwydd penodol aelodau o'r Bwrdd yn golygu na fyddai'n briodol yn fy marn i i ganiatáu eilyddion. Gall greu ansicrwydd ynglŷn a swyddogaethau ynghyd a chysylltiadau a'r Gwasanaethau yn y portffolio penodol. Mae yn swyddogaeth sydd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r portffolio. Wrth gwrs ni allai aelod sydd yn dirprwyo fod yn ddarostyngedig i gyfyngiad cyfreithiol oherwydd aelodaeth o Bwyllgor arall neu swyddogaeth.

9. **Pwyllgorau Craffu**

Mae gofyn ystyried sut y byddai eilydd yn ymgyfarwyddo a rhaglen waith y Pwyllgor ac yn derbyn hyfforddiant perthnasol.

10. **Pwyllgorau Ardal**

Mae aelodaeth Pwyllgor Ardal yn statudol ac ni ellir dod ag aelod o ardal arall i eistedd ar y Pwyllgor.

11. **Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Cwynion**

Mae gofyn ystyried sut y byddai eilydd yn ymgyfarwyddo a rhaglen waith y Pwyllgor ac yn derbyn hyfforddiant perthnasol

12. **Pwyllgor Cynllunio Canolog**

Byddai angen sicrhau fod y cyfyngiadau ar aelod o Bwyllgor Ardal i gymeryd rhan yn y drafodaeth yn y naill Bwyllgor a'r llall yn cael eu gweithredu.

13. **Pwyllgor Trwyddedu Canolog, Pwyllgor Apêl Cyflogaeth Pwyllgor Pensiynau, a.y.b**

Mewn nifer o Bwyllgorau arbenigol penodol, yn yr un modd a Phwyllgorau Craffu, mae angen ystyriaeth o sut y byddai eilydd yn ymgyfarwyddo a rhaglen waith y Pwyllgor ac yn derbyn hyfforddiant perthnasol. O blaid trefn eilyddion gall hefyd leihau trafferthion cael cworwm mewn Pwyllgorau bychan o'r fath.

14. **Canlyniad**

Os mai'r pryder ydi cyfnodau hir o absenoldeb megis salwch tymor hir mae modd dod dros hyn o fewn y rheolau presennol trwy i'r grŵp roi rhybudd ffurfiol fod ei gynrychiolaeth ar bwyllgor penodol yn newid. Ond, petai'r Cyngor am fabwysiadu trefn eilyddion yna byddwn yn cynnig fod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Prif Bwyllgor Craffu er ystyried y ffordd orau o weithredu a sut i ymateb i'r materion a nodwyd uchod.